

# Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Powys 2022-2037

# Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion

## Drafft Ymgynghori

## Ionawr 2024

Powys

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ... **3**

Diben y Ddogfen Ymgynghori hon ... 3

Strwythur y Ddogfen Ymgynghori hon ... 3

Pryd a Sut i Wneud Sylwadau ... 3

Beth sy'n Digwydd Nesaf? ... 3

**1. Adran A: Materion Allweddol** ... **4**

1.1 Cyflwyniad: ... 4

1.2 Rhestr o'r Materion Allweddol ... 5

1.3 Materion Allweddol ... 6

**1 Adran B: Gweledigaeth** ... **14**

2.1 Gweledigaeth Arfaethedig ... 14

**3. Adran C: Amcanion** ... **15**

3.1 Pennu Amcanion ... 15

3.2 Amcanion y CDLI Newydd ... 16

3.3 Croesgyfeirio'r Amcanion gyda'r Materion Allweddol ... 20

**4. Adran D: Matrics Asesu** ... **22**

4.1 Asesiad o sut y mae'r Weledigaeth a'r Amcanion yn cyd-fynd â Gofynion Polisi. ... 22

4.2 Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ... 23

# Cyflwyniad

## Diben y Ddogfen Ymgynghori hon

Diben y ddogfen hon yw cyflwyno Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion drafft y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd (2022-2037). Ar gyfer gwybodaeth am y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig presennol, mae CDLl Mabwysiedig Powys (2011-2026) yn dal fod yn weithredol tan 2026.

Mae'r ddogfen hon yn gam pwysig ym mhroses y CDLl Newydd gan roi'r cyfle i chi wneud sylwadau ar y Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion drafft a dylanwadu ar gam cynnar o broses y CDLl Newydd. Sylwer nad yw ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys yn ymestyn i dir o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB).

## Strwythur y Ddogfen Ymgynghori hon

**Adran A –** yn darparu rhestr o 20 o Faterion Allweddol fel y'u nodwyd hyd yma ar gyfer y CDLl Newydd.

**Adran B –** yn darparu Gweledigaeth ddrafft a hysbyswyd gan y Materion Allweddol ac yn nodi'r hyn y mae'r Cynllun yn ceisio ei gyflawni dros gyfnod y cynllun (2022 i 2037) mewn ymateb i anghenion a heriau lleol penodol yr ardal.

**Adran C** – yn cyflwyno'r 22 o Amcanion arfaethedig sy'n ymateb i'r Materion Allweddol, ac sy'n galluogi'r Cynllun i wireddu'r Weledigaeth. Bydd y gyfres derfynol o Amcanion yn llywio cynnwys y CDLl Newydd ac yn dod yn rhan o Fframwaith Monitro diweddarach i ddyfarnu ei effeithiolrwydd.

**Adran D –** darperir hon er gwybodaeth yn unig. Mae'r adran hon yn cynnwys matrics asesu i ddangos sut mae'r Amcanion, yn darparu'r Weledigaeth, yn cyd-fynd â gofynion polisi sy'n cynnwys a) Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Chanlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Polisi Cynllunio Cymru, b) y Nodau Llesiant cenedlaethol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac c) amcanion Cynllun Llesiant Powys.

## Pryd a Sut i Wneud Sylwadau

Mae'r ymgynghoriad ar agor am dair wythnos rhwng 8 a 28 Ionawr 2024. Rydym yn eich annog i wneud sylwadau gan ddefnyddio hwb ymgysylltu ar-lein y Cyngor – Dweud Eich Dweud: https://www.dweudeichdweudpowys.cymru/hub-page/cyngor-sir-powys.

Fel arall, gallwch anfon eich sylwadau yn ysgrifenedig mewn e-bost i ldp@powys.gov.uk neu mewn llythyr i Gwasanaethau Cynllunio (At sylw: Polisi Cynllunio), Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Ffordd Ddwyreiniol Sba, Llandrindod, Powys, LD1 5LG. **5.00 pm ar 28 Ionawr 2024 yw'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau.**

## Beth sy'n Digwydd Nesaf?

Bydd sylwadau ac adborth yn cael eu hystyried yn llawn gan y Cyngor a bydd newidiadau yn cael eu gwneud yn ôl disgresiwn y Cyngor. Bydd y Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion diwygiedig yn cael eu hasesu drwy'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, cyn cael eu cyhoeddi yn rhan o Ymgynghoriad Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) y CDLl Newydd sydd wedi'i drefnu ar gyfer 2024. Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn cynnig cyfle pellach i wneud sylwadau.

# 1. Adran A: Materion Allweddol

## 1.1 Cyflwyniad:

1.1.1 Mae'n rhaid i Gynllun Datblygu Lleol Newydd Powys (CDLl) (2022–2037) ddarparu ar gyfer twf cynaliadwy'r sir yn y dyfodol drwy ystyried materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol.

1.1.2 Mae'r Materion Allweddol a gynigir ar gyfer y CDLl Newydd yn deillio o ffynonellau amrywiol gan gynnwys:

- Ymarferion ymgysylltu mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2022/2023 yn cynnwys Cynghorwyr Sir, Penaethiaid Gwasanaethau ac Adrannau a Swyddogion Proffesiynol.
- Adolygiad o Faterion/Ystyriaeth ac Amcanion CDLl Mabwysiedig Powys (2011-2026).
- Cymryd i ystyriaeth perfformiad CDLl Mabwysiedig Powys (2011-2026), fel y'i dadansoddwyd yn Adroddiad Adolygu'r CDLl (Chwefror 2022) ac Adroddiadau Monitro Blynyddol (2021, 2022 a 2023).
- Y fframwaith cyfreithiol/technegol presennol, yn enwedig unrhyw newidiadau ers mabwysiadu CDLl Mabwysiedig Powys (2011-2026) yn 2018. Er enghraifft, cyhoeddiad, ym mis Chwefror 2021, Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040, a gyflwynodd fframwaith cynllun datblygu cenedlaethol cyffredinol newydd.
- Parchu uchelgais cenedlaethol y llywodraeth o ddatgarboneiddio cymdeithas, bod yn fwy llewyrchus, tyfu'r Gymraeg a gwella iechyd.
- Cynlluniau lefel uchel ym Mhowys gan gynnwys Cynllun Llesiant Powys, y Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol, a Datganiad Ardal Canolbarth Cymru.
- Yr adborth o holiadur a anfonwyd i Gynghorau Tref a Chymuned 58 o aneddiadau mwyaf y CDLl yn ystod Archwiliad Aneddiadau, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2022.

1.1.3 O'r pwyntiau uchod, mae'r Cyngor wedi penderfynu'r prif ysgogiadau ar gyfer newid yn ystod cyfnod y CDLl Newydd (2022-2037) a lle mae materion/ystyriaethau CDLl Mabwysiedig Powys (2011-2026) yn dal i fod yn berthnasol, gan arwain at restr ddrafft o 20 o Faterion Allweddol i'r CDLl Newydd roi sylw iddynt.

## 1.2 Rhestr o'r Materion Allweddol

1.2.1 O'r gwaith a wnaed hyd yma, nodwyd yr 20 o Faterion Allweddol drafft canlynol ar gyfer CDLl Newydd Powys (2022-2037) (gweler Adran 1.3 ar gyfer gwybodaeth fanwl am bob mater allweddol a chyd-destun):

1. Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd
2. Cefnogi Adferiad Natur
3. Gofalu am Adnoddau
4. Hyrwyddo Trafnidiaeth Gynaliadwy
5. Ymateb i Heriau Demograffig
6. Cynllunio ar gyfer Llesiant
7. Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw
8. Datblygiad Iawn, Lle Iawn
9. Hybu a Diogelu'r Gymraeg
10. Cynllunio ar gyfer Cartrefi Newydd
11. Cynllunio ar gyfer Economi Fywiog
12. Cynllunio ar gyfer Economi Ffermio a Gwledig Gref
13. Cefnogi Bargen Twf Canolbarth Cymru
14. Cefnogi Twristiaeth
15. Creu Lleoedd Lleol
16. Cynllunio Anghenion Seilwaith a Gwasanaeth
17. Cefnogi Cyfleusterau Cymunedol ac Asedau Cymunedol
18. Cefnogi Strydoedd Mawr Powys
19. Cefnogi Ynni Cynaliadwy: Harneisio Pŵer Gwyrdd a Hybu Effeithlonrwydd Ynni
20. Rheoli a Lleihau Gwastraff

## 1.3 Materion Allweddol

1.3.1 Mae'r adran hon yn darparu rhagor o wybodaeth a chyd-destun i bob un o'r Materion Allweddol a nodwyd. Sylwer bod llawer o'r materion allweddol yn rhyng-gysylltiedig.

### Mater Allweddol 1 (MA.1): Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd

**1.3.2 Cyd-destun:** Mae'r newid yn yr hinsawdd yn her sylweddol dros ben i gymdeithas, ac wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd mae angen lliniaru rhag y newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Ceir dealltwriaeth dda o wyddoniaeth y newid yn yr hinsawdd erbyn hyn ac mae angen cyfyngu'r cynnydd i'r tymheredd byd eang o 1.5 gradd uwchben lefelau cyn yr oes ddiwydiannol os yw effeithiau hinsawdd trychinebus yn mynd i gael eu hosgoi (*The Climate Crisis - A Guide for Local Authorities on Planning for Climate Change*, y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref (TCPA), y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI), Ion 2023).

1.3.3 Mae effeithiau niweidiol yn cynnwys digwyddiadau tywydd eithafol, mwy o lifogydd, lefelau'r môr yn codi, a phrinder dŵr. Mae Cynllun Llesiant Powys (2023) yn nodi bod gweithredu ar yr hinsawdd yn hanfodol gan ddatgan "mae'r cyfle i gynnal planed y gellir byw ynddi ar gyfer bodau dynol a natur fel rydym ni'n ei adnabod yn cau'n gyflym iawn".

1.3.4 Mae'r newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth strategol ar gyfer polisi cenedlaethol ar draws pob rhan o'r DU. Fe wnaeth Cyngor Sir Powys ddatgan argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020 yn dilyn datganiad Llywodraeth Cymru yn 2019 (â'i ymrwymiad i sero net erbyn 2050). Cydnabyddir bod y newid yn yr hinsawdd yn fater hollbwysig yng Nghynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol y Cyngor ("y Cynllun Corfforaethol") 2023 a Chynllun Llesiant Powys. Mae'r Cyngor yn rhannu uchelgais sector cyhoeddus Cymru i leihau ei allyriadau carbon i sero net erbyn 2030.

1.3.5 Mae gan y Cyngor Strategaeth ar gyfer Newid Hinsawdd (2021-2030) ac fel partner ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys yn rhan o'r Strategaeth Carbon Bositif ar draws y sir gyfan. Mae Cynllun Llesiant Powys (a luniwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) yn gwneud addunedau sylweddol o ran gweithredu ar yr hinsawdd.

1.3.6 Mae derbyn yr argyfwng hinsawdd fel blaenoriaeth yn integreiddio â'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru ac yn Cymru'r Dyfodol ac yn gyson â nodi'r Newid yn yr Hinsawdd fel thema graidd yn Natganiad Ardal Canolbarth Cymru a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Mater Allweddol hwn yn drawsbynciol â pherthynas â llawer os nad pob un o'r Materion Allweddol eraill a nodwyd ar gyfer y CDLl Newydd.

### Mater Allweddol 2 (MA.2): Cefnogi Adferiad Natur

**1.3.7 Cyd-destun:** Bu gan y system gynllunio swyddogaeth allweddol ers amser maith o ran sicrhau bod safleoedd dynodedig o werth cadwraeth natur yn cael ei diogelu a'u gwarchod ac o ran ceisio cynnal bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym fod pwysau amgylcheddol cynyddol a bod llawer o ecosystemau ledled y DU yn dirwyo.

1.3.8 Fe wnaeth y Cyngor ddatgan argyfwng natur ym mis Hydref 2022. Yn rhan o Bartneriaeth Natur Powys, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys (2022-2032), sy'n amlygu sut mae bioamrywiaeth yn dirywio ar gyfradd ddigynsail oherwydd nifer o bwysau allweddol. Mae bioamrywiaeth yn golygu amrywiaeth fiolegol sef yr amrywiaeth o fywyd ar y ddaear a'r cynefinoedd y'u canfyddir ynddynt.

1.3.9 Mae'r Mater Allweddol hwn yn gysylltiedig â MA.3, Gofalu am Adnoddau. Ymateb i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yw Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ac mae'n cyflwyno'r gofyniad i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru. Cydnabyddir bod gan bawb ran i'w

chwarae i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Un o'r prif heriau a amlygwyd yw'r gwelliant i gydnerthedd ecosystemau.

1.3.10 Mae awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i 'Ddyletswydd Adran 6 Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau' o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddatblygiad weithio ochr yn ochr â natur, darparu budd net i fioamrywiaeth, a gwella cydnerthedd ecosystemau.

1.3.11 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi naw ardal eang o Adnoddau Naturiol Cenedlaethol lle mae rhwydweithiau ecolegol/seilwaith gwyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol yn bodoli, gan gynnwys Mynyddoedd Cambria, y Mynydd Du a Bannau Brycheiniog. Dylid ystyried yr ardaloedd hyn fel sail ar gyfer hyrwyddo camau i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a gwella cydnerthedd ecosystemau sy'n gysylltiedig â seilwaith gwyrdd sydd o bwysigrwydd strategol.

1.3.12 Mae Cymru'r Dyfodol (Polisi 9) yn amlygu sut mae rhwydweithiau ecolegol cadarn yn hanfodol ar gyfer adferiad natur. Diffinnir rhwydweithiau ecolegol cadarn fel "rhwydweithiau o gynefin mewn cyflwr ecolegol da sy'n cysylltu safleoedd a ddiogelir a llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth a llesiant".

### Mater Allweddol 3 (MA.3): Gofalu am Adnoddau

**1.3.13 Cyd-destun:** Mae gan Bowys gyfoeth o adnoddau o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol o fewn ei hamgylchedd ffisegol, cymdeithasol, a diwylliannol.

1.3.14 Mae Powys yn adnabyddus am ei thirweddau amrywiol a hardd, a werthfawrogir gan drigolion, sy'n denu twristiaid, ac yn darparu mannau lle gall pobl a natur ffynnu. Mae ardal y cynllun yn gysylltiedig â Gwarchodfa Biosffer UNESCO (Dyfi) ac mae ganddi Barc Awyr Dywyll (Cwm Elan). Ceir safleoedd natur a geoamrywiaeth niferus sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol ac yn lleol o fewn ardal y cynllun. Mae gan Bowys amgylchedd hanesyddol nodedig hefyd.

1.3.15 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Pennod 6, diweddarwyd ym mis Hydref 2023) yn cyfeirio at yr angen i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol yn ogystal ag elfennau eraill o'r byd naturiol, fel adnoddau dŵr neu ansawdd aer. Mae'n rhaid felly i'r system gynllunio edrych ar ddiogelu a gwella nodweddion arbennig a rhinweddau cynhenid yr amgylcheddau naturiol, hanesyddol, ac adeiledig yn yr hirdymor. O gofio lled y materion perthnasol ar gyfer Mater Allweddol 3 ledled Powys, rhennir yr adnoddau yn ddau gategori:

#### i) Adnoddau Amgylchedd Naturiol

gan gynnwys:

- tir, aer, dŵr, a phridd
- anifeiliaid, planhigion, ac organebau eraill
- safleoedd dynodedig (statudol ac anstatudol) o gadwraeth natur
- tirweddau a chymeriad tirwedd, nodweddion daearegol, ac awyr dywyll
- gwerth cefn gwlad fel dalfa garbon
- mawndiroedd
- cynefinoedd, llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth, rhwydweithiau ecolegol a seilwaith gwyrdd
- coed, coetiroedd, gwrychoedd (gan gynnwys coetiroedd hynafol a lled-naturiol)
- tir a ddynodwyd ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru
- y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas
- dyddodion mwynau
- gorlifdir afonydd

- diogelu tir comin.
- angen i roi sylw i ddibenion statudol Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol cyfagos a ddynodwyd ar sail rhinweddau arbennig gan gynnwys tirwedd a golygfeydd.

Mae problemau a phryderon presennol yn ymwneud ag adnoddau amgylcheddol naturiol yn cynnwys llygredd, dŵr ffo pridd, rheoli llifogydd a dŵr, plannu'r goeden iawn yn y lle iawn, diogelwch cyflenwadau bwyd a dŵr a bioamrywiaeth sy'n dirywio. Mae rhai o'r problemau yn cael eu heffeithio gan y Newid yn yr Hinsawdd.

**ii) Adnoddau Hanesyddol ac Adeiledig**

gan gynnwys:

- cymeriad unigryw ac arbennig trefi a phentrefi a'u lleoliadau gwledig.
- yr amgylchedd hanesyddol a'i leoliadau (gan gynnwys adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, parciau a gerddi hanesyddol, trefluniau, tirweddau hanesyddol, ac olion archaeolegol).
- seilwaith trafnidiaeth gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd, camlesi, llwybrau hamdden, hawliau tramwy cyhoeddus, a llwybrau/rhwydweithiau teithio llesol.
- diogelu seilwaith rheilffyrdd segur; cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus presennol a seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau cysylltiedig a nodwyd ar gyfer y dyfodol.
- diogelu Ardal(oedd) Hyfforddi'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

### Mater Allweddol 4 (MA.4): Hyrwyddo Trafnidiaeth Gynaliadwy

**1.3.16 Cyd-destun:** Yn unol â pholisi cenedlaethol, mae'r blaenoriaethau a gyflwynir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ystyriaeth bwysig i'r CDLl Newydd. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau'r angen i deithio a gweithrediad yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy, lleihau dibyniaeth ar y car preifat trwy hyrwyddo Teithio Llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a'r defnydd o Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVs). Mae'r dull hwn yn cefnogi ymdrechion datgarboneiddio, yn rhoi sylw i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

1.3.17 Cydnabyddir bod cyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn fwy cyfyngedig mewn llawer o gymunedau gwledig.

### Mater Allweddol 5 (MA.5): Ymateb i Heriau Demograffig

**1.3.18 Cyd-destun:** Mae gan Bowys boblogaeth oedrannus gynyddol ac mae'n wynebu'r broblem o boblogaeth anghytbwys rhwng demograffeg hŷn ac iau. Mae'r boblogaeth sydd wedi ymddeol nad ydynt yn gweithio o'i chymharu â'r boblogaeth oedran gweithio yn her sy'n wynebu Powys, fel y cydnabyddir yng Nghynllun Llesiant Powys a'r Cynllun Corfforaethol.

1.3.19 Mae gan rai trigolion hŷn ofynion tai a gofal arbenigol cynyddol ac angen mynediad at lety a gwasanaethau priodol.

1.3.20 I gefnogi cymunedau mwy cytbwys o ran oedran, bydd angen i'r Cynllun greu swyddi, cartrefi a chyfleoedd i gynyddu'r boblogaeth oedran gweithio.

### Mater Allweddol 6 (MA.6): Cynllunio ar gyfer Llesiant

**1.3.21 Cyd-destun:** Mae'n rhaid i'r CDLl Newydd fod yn gyson â'r saith nod llesiant cenedlaethol ac amcanion Cynllun Llesiant Powys. Ceir tair blaenoriaeth yng Nghynllun Llesiant Powys:

- Bydd pobl ym Mhowys yn byw bywydau hapus, iach, a diogel.
- Mae Powys yn sir o leoedd a chymunedau cynaliadwy.
- Gwasanaeth Cyhoeddus cynyddol effeithiol i bobl Powys.

1.3.22 Gall llawer o agweddau ar y CDLI Newydd gefnogi'r blaenoriaethau hyn gan gynnwys: cynllunio'r nifer a'r math cywir o gartrefi o swyddi newydd yn y mannau cywir a sicrhau bod seilwaith lleol i'w cefnogi; annog ffyrdd iach ac egnïol o fyw; a chreu a diogelu mannau gwyrdd, sydd i gyd yn cyfrannu at lesiant tra'n datgarboneiddio'r economi mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

1.3.23 Bydd angen hefyd i'r CDLI Newydd gefnogi modelau newydd o ymyrraeth fel gwasanaethau integredig mewn cyfleusterau newydd e.e. hwb Iechyd a Llesiant Gogledd Powys. Mae'r mathau hyn o brosiectau datblygu yn darparu ar gyfer integreiddio gofal a llesiant gan ddod â gwasanaethau meddygol, iechyd, cymunedol, cymdeithasol ac eraill ynghyd.

### Mater Allweddol 7 (MA.7): Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw

**1.3.24 Cyd-destun:** Mae lleoliad a dyluniad datblygiadau newydd yn chwarae rhan arbennig o bwysig o ran cefnogi ac annog ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys mynd i'r afael â lefelau gordewdra. Gellir cefnogi ffyrdd iachach o fyw trwy leoli datblygiadau yn agos at lwybrau Teithio Llesol, trwy ddarparu mynediad at seilwaith gwyrdd a mannau agored cyhoeddus (gan gynnwys rhandiroedd a mannau tyfu).

### Mater Allweddol 8 (MA.8): Datblygiad Iawn, Lle Iawn

**1.3.25 Cyd-destun:** Mae cyflawni'r datblygiad iawn yn y lle iawn yn Egwyddor Gynllunio Allweddol a gyflwynir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

1.3.26 Mae'r mater hwn yn golygu bod angen seilio twf a dosbarthiad gofodol datblygiadau newydd ar ddewisiadau lleoliad a dylunio cadarn, gan roi sylw i lawer o ystyriaethau gan gynnwys adnoddau amgylchedd naturiol ac iechyd a llesiant. Bydd angen datblygu Hierarchaeth Aneddiadau Cynaliadwy (diweddariad i'r un yn y CDLI Mabwysiedig) i hysbysu'r dosbarthiad o dwf mewn ffordd gynaliadwy. Hefyd, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi Ardaloedd Twf Rhanbarthol yng Nghanolbarth Cymru a Phowys gan gynnwys:

- Aberhonddu a'r Ffin.
- Calon Cymru (gan gynnwys Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt).
- Bro Hafren, (gan gynnwys y Trallwng a'r Drenewydd).

1.3.27 Mae'n rhaid trin yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol fel y canolbwyntiau ar gyfer twf a datblygiad cynaliadwy a bydd disgwyl iddynt ddiwallu'r anghenion tai, cyflogaeth a chymdeithasol rhanbarthol. Bydd angen galluogi twf pellach mewn lleoliadau cynaliadwy, i ddiwallu anghenion lleol, y tu allan i'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol.

1.3.28 Mae Datblygiad Iawn, Lle Iawn yn fater hollbwysig i gefnogi addewid y Cynllun Corfforaethol i sicrhau bod Powys yn "Datblygu Trefi a Phentrefi Ffyniannus."

### Mater Allweddol 9 (MA.9): Hybu a Diogelu'r Gymraeg

**1.3.29 Cyd-destun:** Rhagwelir yn genedlaethol y bydd y boblogaeth Cymraeg ei hiaith yng Nghymru yn cynyddu yn unol â tharged Llywodraeth Cymru o gyrraedd un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg, Llywodraeth Cymru).

1.3.30  Mae defnydd o'r Gymraeg yn amrywio'n sylweddol ar draws Powys, ac mae cadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg yng nghymunedau'r gogledd-orllewin a'r de-orllewin. Yn yr ardaloedd hyn, mae'r Gymraeg a diwylliant Cymreig yn rhan annatod o'r adeiladwaith cymdeithasol. Canfu Cyfrifiad 2021 bod cyfanswm y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys wedi gostwng rhyw fymryn dros gyfnod deng mlynedd 2011-2021.

1.3.31  Mae Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo i hybu'r Gymraeg a'i gwneud yn haws i drigolion ei defnyddio. I hwyluso hyn, mae'r Cyngor yn dilyn Safonau'r Gymraeg, yn meddu ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

1.3.32  Ceir cysylltiad sylweddol â swyddogaeth y system addysg ym Mhowys sy'n rhan fawr o gynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddod yn ddwyieithog.

### Mater Allweddol 10 (MA.10): Cynllunio ar gyfer Cartrefi Newydd

**1.3.33  Cyd-destun:** Mae angen cynllunio cartrefi newydd i ddiwallu anghenion amrywiol cymunedau. Mae cartrefi newydd yn angenrheidiol i wasanaethu poblogaeth sy'n tyfu (yn deillio o newid naturiol a/neu fudo net) ac i hwyluso'r duedd o faint aelwyd cyfartalog sy'n lleihau (sy'n golygu bod mwy o aelwydydd yn cael eu creu).

1.3.34  Mae gan Bowys economi cyflog isel yn bennaf, sy'n effeithio ar fforddiadwyedd cartrefi newydd i bobl leol. Mae prisiau tai cyfartalog ym Mhowys wedi cynyddu ar gyfradd uwch nag incwm cyfartalog gan arwain at angen cynyddol am dai fforddiadwy. Mae'r Cyngor fel yr Awdurdod Tai Strategol yn rheoli Cofrestr Tai Cyffredin ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sy'n nodi'r galw am dai cymdeithasol.

1.3.35  Yn ogystal â thai'r farchnad, cydnabyddir bod y galw am gartrefi newydd yn cynnwys tai anghenion arbenigol fel tai byw'n annibynnol, gwarchod neu ofal ychwanegol, byw â chymorth, ac anghenion y cymunedau sipsiwn a theithwyr. Gall cynlluniau wedi'u teilwra fel tai dan arweiniad y gymuned a hunan-adeiladu fynd i'r afael ag anghenion sy'n deillio o gymunedau lleol. O ystyried pwysigrwydd yr economi amaethyddol a gwledig ym Mhowys, mae'n rhaid ystyried anghenion ffermydd a mentrau gwledig yn llawn hefyd.

### Mater Allweddol 11 (MA.11): Cynllunio ar gyfer Economi Fywiog

**1.3.36  Cyd-destun:** mae gan Bowys sail economaidd eang sy'n canolbwyntio ar amaethyddiaeth, twristiaeth, gweithgynhyrchu, y sector cyhoeddus a gwasanaethau, ac mae'n cefnogi nifer fawr o Fentrau Bach i Ganolig ag ychydig o gwmnïau sector preifat mawr.

1.3.37  Mae angen darparu safleoedd cyflogaeth a pholisïau cefnogol i ddiwallu anghenion a gofynion cyflogaeth busnesau ym Mhowys. Bydd hyn yn helpu i ddarparu economi leol ffyniannus a chymunedau cryfach.

1.3.38  Cydnabyddir bod Powys yn wynebu her o ran denu a chadw'r boblogaeth o oedran gweithio ac ystyrir bod economi gref, fywiog, ac amrywiol, sy'n darparu ar gyfer swyddi a sgiliau newydd, yn hanfodol i helpu i fynd i'r afael â hyn. Byddai swyddi â chyflogau gwell yn helpu i wrthdroi problem yr economi cyflogau isel sy'n bresennol ym Mhowys.

### Mater Allweddol 12 (MA.12): Cynllunio ar gyfer Economi Ffermio a Gwledig Gref

**1.3.39  Cyd-destun:**  Fel sir bennaf wledig, mae gweithgareddau ffermio a choedwigaeth yn dal i fod yn bwysig ar gyfer cefnogi bywoliaethau a chymunedau gwledig ym Mhowys a darparu swyddi lleol yn ogystal â chynhyrchu bwyd a darparu diogeled bwyd i'r genedl. Mae amaethyddiaeth wedi

llunio tirwedd Powys ac wedi cefnogi trefi marchnad ers cenedlaethau, ond mae angen i'r economi ffermio fodern ymateb ac addasu i heriau'r newid yn yr hinsawdd ac adferiad natur.

1.3.40 Ceir newidiadau parhaus i'r drefn cymorthdaliadau ffermio a fydd yn seiliedig yn gynyddol ar egwyddorion rheoli tir cynaliadwy a ffermio amgylcheddol gyfrifol. Gallai hyn arwain at arallgyfeirio ehangach yr economi wledig. Mae economi wledig Cymru wedi bod yn arallgyfeirio ers degawdau i ddatgloi cyfleoedd y tu hwnt i arferion amaethyddol traddodiadol. Mae arallgyfeirio'r economi wledig yn creu cyfleoedd ar gyfer entrepreneuriaeth, arloesedd a chreu cyfoeth sy'n hanfodol ar gyfer economi iach a chymunedau gwledig cynaliadwy. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod prosesu bwyd a diod lleol o gynhyrchion amaethyddol a garddwriaethol yn ddiwydiant sy'n tyfu a disgwylir i awdurdodau cynllunio gefnogi datblygiad newydd a chyfleed i wella neu ddatblygu cadwyni cyflenwi a rhwydweithiau dosbarthu gwledig.

### Mater Allweddol 13 (MA.13): Cefnogi Bargen Twf Canolbarth Cymru

**1.3.41 Cyd-destun:** Mae gweledigaeth ranbarthol "Tyfu Canolbarth Cymru" yn datgan, erbyn 2035, y bydd Canolbarth Cymru yn:

"Rhanbarth mentrus ac unigryw sy'n cyflawni twf economaidd wedi'i ysgogi gan arloesedd, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyieithog".

1.3.42 Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi'i gosod o fewn y Weledigaeth ehangach ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru ac yn ategu strategaethau eraill a buddsoddiadau o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i ddod â ffyniant i gymunedau a busnesau'r rhanbarth. Bydd y Fargen yn chwarae rhan allweddol i gefnogi adferiad a thwf economaidd yn economi Canolbarth Cymru, gyda'r nod o gynorthwyo'r ymdrech i greu swyddi a chynyddu cynhyrchiant ac uchelgeisiau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.

1.3.43 Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru yn cynnwys cyfres o raglenni a phrosiectau sy'n cwmpasu amrywiaeth o gynigion buddsoddi ar draws themâu digidol, twristiaeth, amaethyddiaeth, bwyd a diod, ymchwil ac arloesedd a chefnogi menter. Nod y rhaglen waith safleoedd ac eiddo yw ysgogi buddsoddiad mewn eiddo yn rhanbarth Canolbarth Cymru i gefnogi sectorau diwydiant amrywiol gan sicrhau'r cyflenwad a'r lleoliad iawn i ddiwallu anghenion busnes.

1.3.44 Gan weithio gyda Llywodraethau Cymru a'r DU a rhanddeiliaid eraill, mae'r Cyngor eisoes yn cefnogi nodau ac amcanion y Fargen Twf a bydd y CDLI Newydd yn cael ei ddefnyddio yn rhan o'r ateb tuag at sicrhau bod y Fargen yn cael ei darparu'n llwyddiannus ac yn cyflawni ei chanlyniadau a ddymunir.

### Mater Allweddol 14 (MA.14): Cefnogi Twristiaeth

**1.3.46 Cyd-destun:** Mae twristiaeth yn rhan annatod o economi Powys. Mae ymwelwyr â Phowys yn cael ei denu i'r ardal oherwydd ei golygfeydd godidog, cynigion diwylliannol a threftadaeth a chyfleoedd hamdden sy'n aml wedi'u canolbwyntio ar yr awyr agored. Mae twristiaeth yn rhan o economi sylfaenol Powys a cheir potensial ar gyfer datblygiad twristiaeth cynaliadwy pellach yn arbennig, fel yr amlygir gan Cymru'r Dyfodol, mewn twristiaeth gweithgareddau, gwyrdd, a diwylliannol.

### Mater Allweddol (MA.15): Creu Lleoedd Lleol

**1.3.47 Cyd-destun:** Nod y Cynllun Corfforaethol yw darparu trefi a phentrefi ffyniannus. Ystyrir bod dull cadarnhaol o greu lleoedd lleol yn allweddol i'r mater o ddarparu lleoedd cynaliadwy a ffyniannus yn lleol lle mae pobl eisiau byw.

1.3.48 Diffinnir creu lleoedd ym Mholisi Cynllunio Cymru fel creu “mannau cynaliadwy sy’n ddeniadol, yn gymdeithasol, yn hygyrch, yn actif, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar.”

1.3.49 Mae’n rhaid i greu lleoedd ar gyfer mannau lleol ddilyn y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer:

- Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy.
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- Hwyluso amgylcheddau iach a hygyrch.
- Creu a chynnal cymunedau.
- Sicrhau’r diogelwch amgylchedd mwyaf posibl a chyfyngu effaith amgylcheddol

### Mater Allweddol 16 (MA.16): Cynllunio Anghenion Seilwaith a Gwasanaeth

**1.3.50 Cyd-destun:** Ardal CDLI Powys yw’r ardal cynllun fwyaf a mwyaf prin ei phoblogaeth yng Nghymru ac mae ei thopograffi a’i natur anghysbell yn creu heriau ar gyfer darparu seilwaith a gwasanaethau.

1.3.51 Mae angen cyfeirio datblygiadau i leoliadau sy’n cael eu gwasanaethu orau gan seilwaith a gwasanaethau presennol a phosibl fel iechyd, addysg a gwasanaethau eraill. Mae Cymru’r Dyfodol yn diffinio Ardaloedd Twf Rhanbarthol fel hybiau gwasanaeth gan ddatgan y dylai’r ardaloedd hyn “gadw a gwella'r sail gwasanaethau masnachol a chyhoeddus sy'n eu gwneud yn ganolbwyntiau yn eu hardaloedd.”

1.3.52 Nid yw seilwaith cyfleustodau, fel carthffosydd cyhoeddus, gweithfeydd trin dŵr gwastraff a phrif gyflenwad nwy ar gael neu mae’n gweithredu hyd eithaf ei gapasiti mewn rhai rhannau o ardal y Cynllun, a all fod yn gyfyngiad ar ddatblygiad.

1.3.53 Mae’r angen am well cyfathrebu digidol a gwell signal symudol hefyd yn broblem. Mae seilwaith digidol cynhwysfawr yn darparu ar gyfer cyfleoedd economaidd a chymdeithasol ac yn galluogi mynediad at wasanaethau digidol trwy well cysylltedd.

### Mater Allweddol 17 (MA.17): Cefnogi Cyfleusterau Cymunedol ac Asedau Cymunedol

**1.3.54 Cyd-destun:** Mae cyfleusterau cymunedol yn sail i adeiladwaith economaidd, cymdeithasol, a diwylliannol trefi, pentrefi, a chymunedau gwledig. Gall bodolaeth cyfleusterau ac asedau cymunedol helpu i wasanaethu anghenion lleol, cynyddu bywiogrwydd anheddiad, rhoi hwb i’r economi leol, sicrhau cyn lleied â phosibl o ynysigrwydd cymdeithasol, diogelu llesiant a hefyd lleihau dibyniaeth ar y car preifat trwy leihau’r angen i deithio i gyrraedd gwasanaethau/cyfleusterau amgen.

1.3.55 Mae cefnogi’r ymdrech i gadw a darparu cyfleusterau cymunedol hyfyw i ddiwallu anghenion lleol yn elfen hanfodol o greu lleoedd llwyddiannus (MA.15) ac mae’n hanfodol i gyflawni nod y Cynllun Corfforaethol o ‘Ddatblygu Trefi a Phentrefi Ffyniannus’.

### Mater Allweddol 18 (MA.18): Cefnogi Strydoedd Mawr Powys

**1.3.56 Cyd-destun:** Mae angen cymysgedd o ddefnyddiau ategol i wneud canol trefi yn fannau deniadol, hanfodol, a hyfyw, gan ymateb i’r her o adfer strydoedd mawr a natur newidiol swyddfeydd a’r gweithle yn dilyn pandemig iechyd byd-eang Covid-19.

1.3.57 Mae gan y rhan fwyaf o'r trefi yn ardal CDLl Powys Gynllun Lle, Cynllun Buddsoddi yng Nghanol y Dref, neu Gynllun Creu Lleoedd i gefnogi canol trefi ffyniannus a bywiog. Bydd angen i ddyheadau'r Cynlluniau hyn gael eu hystyried gan y CDLl Newydd i sicrhau dull cydgysylltiedig.

### Mater Allweddol 19 (MA.19): Cefnogi Ynni Cynaliadwy: Harneisio Pŵer Gwyrdd a Hybu Effeithlonrwydd Ynni

**1.3.58 Cyd-destun**: Ystyrir bod potensial i ddefnyddio adnoddau naturiol y Sir yn ofalus i gynorthwyo cynhyrchiad ynni adnewyddadwy ac i gefnogi twf economaidd ar yr un pryd.

1.3.59 Mae'n bwysig bod yr Hierarchaeth Ynni ym Mholisi Cynllunio Cymru yn cael ei dilyn fel bod pob datblygiad newydd yn cael ei gynllunio i liniaru achosion y newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn golygu y dylid sicrhau bod gofynion ynni datblygiadau newydd a phresennol cyn lleied â phosibl, a chynnwys mesurau effeithiolrwydd ynni.

### Mater Allweddol 20 (MA.20): Rheoli a Lleihau Gwastraff

**1.3.60 Cyd-destun**: Mae rheoli gwastraff yn gynaliadwy, lle sicrheir bod cyn lleied o wastraff â phosibl a'i fod yn cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu, a'i arallgyfeirio'n llwyddiannus oddi wrth safleoedd tirlenwi yn hanfodol ar gyfer sicrhau economi gynaliadwy. Mae angen sicrhau'r ddarpariaeth o amrywiaeth a dewis eang o wahanol safleoedd, o ran cymeriad, maint a lleoliad, ar draws y sir i hwyluso'r ystod lawn o wahanol gyfleusterau rheoli gwastraff. Bydd angen i'r CDLl Newydd gefnogi'r hierarchaeth wastraff genedlaethol, a hwyluso lleihad i wastraff, ailgylchu a chompostio, ac ynni o wastraff.

# 1 Adran B: Gweledigaeth

## 2.1 Gweledigaeth Arfaethedig

2.1.1 Mewn ymateb i'r Materion Allweddol, cynigir y Weledigaeth ganlynol ar gyfer y CDLl Newydd:

**"Erbyn 2037, bydd ardal cynllun Powys …**

**Yn le o gymunedau llewyrchus, bywiog, wedi' cysylltu'n dda gan gynnwys trefi a phentrefi ffyniannus, sy'n hwyluso twf cartrefi a swyddi newydd, ac yn darparu mynediad da at wasanaethau a chyfleoedd gwaith. Bydd yn cynnig rhagolygon gwaith cryfach yn seiliedig ar arloesi ynghyd â gweithlu medrus. Bydd ei ardaloedd gwledig yn cynnwys lleoedd cryf a chynaliadwy wedi'u cefnogi gan economi wledig amrywiol.**

**Bydd pob cymuned wedi datblygu mewn ffordd sy'n galluogi ac yn cefnogi:**

- **Natur a bioamrywiaeth i ffynnu.**
- **Y newid tuag at sero net.**
- **Cymunedau oedran cytbwys mewn lleoedd sy'n diwallu anghenion cymdeithasol, economaidd, y Gymraeg a diwylliannol.**

**Bydd trigolion yn byw bywydau mwy diogel, iach, a gwyrdd mewn amgylchedd ffisegol a diwylliannol rhagorol. Bydd adnoddau yn cael eu rheoli'n gynaliadwy a bydd ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol cydnerth yn sail i etifeddiaeth defnydd tir cynaliadwy er budd cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y cyfoeth o adnoddau yn yr amgylcheddau naturiol, adeiledig a hanesyddol, gan gynnwys tirweddau eiconig, yn cael eu diogelu a'u gwerthfawrogi."**

# 3. Adran C: Amcanion

## 3.1 Pennu Amcanion

3.1.1 I wireddu'r Weledigaeth, cynigir 22 o Amcanion ar gyfer y CDLl Newydd. Grwpiwyd yr amcanion o dan y pynciau canlynol sy'n deillio o'r Materion Allweddol ac yn cyflwyno'r bwriadau eang ar gyfer rheoli datblygiad hyd at 2037.

- Newid yn yr Hinsawdd.
- Adferiad Natur a Rheoli Adnoddau yn Gynaliadwy.
- Egwyddorion Cynllunio Allweddol, Creu Lleoedd, Iechyd a Llesiant.
- Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cynaliadwy.
- Economi Gynaliadwy a Bywiog.
- Seilwaith, Ynni a Gwastraff.

## 3.2 Amcanion y CDLl Newydd

### 3.2.1 Newid yn yr Hinsawdd

**Mater Allweddol:**

- **MA.1 Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd**

**Amcan 1 – Newid yn yr Hinsawdd**

Sicrhau bod datblygiadau a defnyddiau tir newydd yn wydn yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, a mynd i'r afael yn weithredol ag achosion ac effeithiau hinsawdd sy'n newid trwy gad lefelau mor isel â phosibl, addasu a lliniaru i gefnogi'r newid i sicrhau sero net.

### 3.2.2 Adferiad Natur a Rheoli Adnoddau yn Gynaliadwy

**Materion Allweddol:**

- **MA.2 Cefnogi Adferiad Natur**
- **MA.3 Gofalu am Adnoddau**

**Amcan 2 – Adferiad Natur**

Cefnogi adferiad natur a mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth trwy ddiogelu, rheoli, cynnal, a gwella gwydnwch amgylchedd naturiol Powys gan gynnwys cynefinoedd, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, iechyd a chydnerthedd ecosystemau, gwella seilwaith gwyrdd a chysylltedd rhwydweithiau ecolegol.

**Amcan 3 – Amgylcheddau Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig**

Rheoli adnoddau naturiol Powys yn gynaliadwy a diogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a diogelu nodweddion tirwedd arbennig ardal y Cynllun a rhai ardaloedd cyfagos gan gynnwys Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Trwy greu lleoedd, bydd yn ofynnol i ddatblygiadau newydd barchu ac ymateb i natur unigryw a chymeriad lleol, sicrhau budd net ar gyfer diogelu bioamrywiaeth, darparu seilwaith gwyrdd a diogelu rhinweddau amgylcheddol fel aer glân, mannau agored, ac ansawdd dŵr.

**Amcan 4 – Adnoddau Mwynol**

Diogelu dyddodion mwynhau rhag sterileiddiad a darparu'r gadarnhaol ar gyfer gweithio adnoddau mwynol yn gynaliadwy i ddiwallu anghenion cymdeithas nawr ac yn y dyfodol, gan sicrhau bod cyflenwad digonol o fwynau ar gael yn yr hirdymor.

### 3.2.3 Egwyddorion Cynllunio Allweddol, Creu Lleoedd, Iechyd a Llesiant

**Materion Allweddol:**

- **MA.4 Hyrwyddo Trafnidiaeth Gynaliadwy**
- **MA.6 Cynllunio ar gyfer Llesiant**
- **MA.7 Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw**
- **MA.8 Datblygiad Iawn, Lle Iawn**
- **MA.15 Creu Lleoedd Lleol**

**Amcan 5 – Teithio Cynaliadwy**

Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u lleoli a'u dylunio i leihau'r angen i deithio a galluogi dewis o opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i bawb. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd teithio llesol fel

llwybrau beicio a cherdded i annog ffyrdd iachach o fyw, a defnyddio dylunio da i sicrhau bod llwybrau sy'n cysylltu defnyddwyr â gwasanaethau yn hydraidd, yn eglur, yn uniongyrchol, yn gyfleus, yn ddeniadol, ac yn ddiogel.

**Amcan 6 – Creu Lleoedd**

Hyrwyddo "datblygiad iawn, lle iawn" trwy strategaeth sy'n canolbwyntio ar greu lleoedd sy'n llunio twf cynaliadwy a lleoedd gwydn. Bydd datblygiadau newydd yn ymateb i faterion cymeriad lleol, y Gymraeg a diwylliant Cymru, mynediad cynhwysol, hwylustod symud, cydlyniad cymunedol, amgylcheddau diogel ac iach, a chynaliadwyedd amgylcheddol.

**Amcan 7 – Twf Cynaliadwy**

Darparu fframwaith ar gyfer twf cynaliadwy ledled Powys sy'n diogelu adnoddau ac yn galluogi cymunedau i ffynnu. Bydd arwyddocâd yn cael ei neilltuo i Ardaloedd Twf Rhanbarthol o fewn hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy sy'n cydbwyso'r ddarpariaeth o gartrefi, swyddi, gwasanaethau, a chyfleusterau ac yn hybu patrymau teithio cynaliadwy.

**Amcan 8 – Iechyd a Llesiant**

Cefnogi iechyd a llesiant trigolion Powys trwy sicrhau bod lleoedd yn newid ac yn datblygu i gynyddu cyfleoedd ar gyfer ffyrdd gweithgar o fyw gan gynnwys ar gyfer teithio llesol, chwaraeon, hamdden, ac amwynder. Mae hyn yn cynnwys creu mynediad at rwydwaith o seilwaith gwyrdd er budd pobl a bywyd gwyllt a thir y cyhoedd sydd wedi'i ddylunio'n dda ac yn hybu rhyngweithio cymdeithasol ochr yn ochr â mannau ar gyfer myfyrdod tawel.

## 3.2.4 Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cynaliadwy

**Materion Allweddol:**

- **MA.5 Ymateb i Heriau Demograffig**
- **MA.9 Hybu a Diogelu'r Gymraeg**
- **MA.10 Cynllunio ar gyfer Cartrefi Newydd**
- **MA.17 Cefnogi Cyfleusterau Cymunedol ac Asedau Cymunedol**

**Amcan 9 – Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy**

Cefnogi cymunedau cryfach, mwy diogel, iachach, a mwy cysylltiedig a bywiog trwy ystyried anghenion holl elfennau cymdeithas, gan gynnwys pob grŵp oed a goblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio. Bydd datblygiadau newydd yn arwain at ganlyniadau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, ac amgylcheddol buddiol gan greu mannau cynaliadwy sy'n gytbwys o ran oedran ac yn optimeiddio iechyd a llesiant y gymuned ac yn mynd i'r afael â materion o amddifadedd uchel ac allgau cymdeithasol.

**Amcan 10 – Diwallu Anghenion y Dyfodol**

Adeiladu cymunedau cryfach, tecach, a gwyrddach ar draws trefi, pentrefi, ac ardaloedd gwledig Powys trwy ddiwallu'r anghenion a nodwyd am gartrefi a swyddi trwy ddarparu cyfleoedd newydd a gwell i bobl ddod i fyw a gweithio ym Mhowys.

**Amcan 11 – Y Gymraeg**

Meithrin y Gymraeg gan gynnwys diogelu ardaloedd o arwyddocâd i'r Gymraeg a chefnogi mentrau diwylliannol, addysgol ac iaith Cymru.

**Amcan 12 – Anghenion Tai**

Diwallu anghenion tai Powys trwy sicrhau bod y nifer, yr amrywiaeth a'r gymysgedd iawn o gartrefi newydd o ansawdd uchel yn cael eu darparu yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys cyflenwi cartrefi fforddiadwy a marchnad agored, cartrefi sy'n diwallu anghenion tai arbenigol sy'n deillio o'r boblogaeth a hwyluso cynlluniau tai dan arweiniad y gymuned a hunan-adeiladu.

**Amcan 13 – Cyfleusterau ac Asedau Cymunedol**

Cefnogi lleoedd cydnerth a chadarn a llesiant cymunedau trwy ddiogelu mannau agored a chyflenwi cyfleusterau allweddol ac asedau lleol, tra'n sicrhau darpariaeth well neu welliant yn rhan o ddatblygiad newydd.

## 3.2.5 Economi Gynaliadwy a Bywiog

**Materion Allweddol:**

- **MA.11 Cynllunio ar gyfer Economi Fywiog**
- **MA.12 Cynllunio ar gyfer Economi Ffermio a Gwledig Gref**
- **MA.13 Cefnogi Bargen Twf Canolbarth Cymru**
- **MA.14 Cefnogi Twristiaeth**
- **MA.18 Cefnogi Strydoedd Mawr Powys**

**Amcan 14 – Economi Fywiog**

Cefnogi ffyniant economaidd a diwallu anghenion cyflogaeth, gan gynnwys diogelu'r amrywiaeth a'r cyflenwad o safleoedd cyflogaeth, annog arloesedd ac uwchsgilio'r gweithlu, gan helpu Powys i ddarparu cymunedau lleol cryf a chadw a denu gweithlu sy'n fwy cytbwys o ran oedran ac yn gystadleuol.

**Amcan 15 – Datblygu Economaidd**

Cefnogi datblygu economaidd newydd sy'n diwallu anghenion busnesau lleol gan gynnwys cynigion sy'n cryfhau'r economi sylfaenol, fel amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu, twristiaeth, ac adeiladu, a chynigion datblygu sy'n cefnogi arallgyfeirio gwledig cynaliadwy ac yn ychwanegu gwerth at gynnyrch lleol.

**Amcan 16 – Bargen Twf Canolbarth Cymru**

Cefnogi twf economaidd trwy gyfrannu at nodau Tyfu Canolbarth Cymru a hwyluso cynigion sy'n deillio o Fargen Twf Canolbarth Cymru.

**Amcan 17 - Twristiaeth**

Cefnogi twristiaeth gynaliadwy, gan gynnwys twristiaeth gweithgareddau, gwyrdd, a diwylliannol, gan sicrhau bod adnoddau ac asedau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cael ei diogelu, fel yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol, llwybrau cenedlaethol, hawliau tramwy cyhoeddus, y rhwydwaith beicio cenedlaethol, awyr dywyll, tirweddau unigryw a mannau agored.

**Amcan 18 – Canol Trefi**

Hybu strydoedd mawr bywiog, deniadol a hyfyw a chanol trefi sy'n ffynnu trwy sicrhau bod datblygiadau manwerthu a masnachol newydd yn cael eu cyfeirio at ganol trefi yn y lle cyntaf, gan ddiogelu ffryntiadau presennol ac annog cymysgedd o ddefnyddiau ategol. Bydd cynigion a

amlinellir mewn Cynlluniau Buddsoddi mewn Canol Trefi, Cynlluniau Lle/Creu Lleoedd neu fentrau lleol eraill yn cael eu cefnogi mewn egwyddor.

### 3.2.6 Seilwaith, Ynni a Gwastraff

**Materion Allweddol:**

- **MA.16 Cynllunio Anghenion Seilwaith a Gwasanaeth**
- **MA.19 Cefnogi Ynni Cynaliadwy: Harneisio Pŵer Gwyrdd a Hybu Effeithlonrwydd Ynni**
- **MA.20 Rheoli a Lleihau Gwastraff**

**Amcan 19 – Darparu Seilwaith a Datblygiad Newydd**

Sicrhau bod seilwaith ffisegol a digidol priodol, gan gynnwys cyfleustodau a gwasanaethau fel iechyd ac addysg ar waith neu y gellir eu darparu i hwyluso anghenion sy’n deillio o ddatblygiadau newydd. Lleoli’r rhan fwyaf o dwf mewn lleoedd sy’n cael eu gwasanaethu orau gan seilwaith a gwasanaethau presennol neu arfaethedig, gan gynnwys lleoedd a nodwyd mewn Ardaloedd Twf Rhanbarthol.

**Amcan 20 – Prosiectau Seilwaith a Chysylltedd Digidol**

Cefnogi’r ddarpariaeth o seilwaith a gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion cymunedau Powys yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys darparu ac uwchraddio cysylltiadau ar gyfer gweithrediadau digidol a ffonau symudol gan alluogi signal cwmpas cynhwysfawr o seilwaith digidol ar draws ardal y Cynllun.

**Amcan 21 – Ynni a Datgarboneiddio**

Lleihau galw datblygiadau newydd am ynni, hybu effeithlonrwydd ynni a chefnogi cynhyrchiad ynni adnewyddadwy, tra’n sicrhau bod cyn lleied o ddefnydd â phosibl o adnoddau nad ydynt yn adnewyddadwy, annog datgarboneiddio, ac atal cynhyrchiad gwastraff a llygredd.

**Amcan 22 - Gwastraff**

Darparu amrywiaeth o safleoedd sy’n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff gan gynnwys y rhai sy’n cynyddu cyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff fel opsiwn yn hytrach na safleoedd tirlenwi, ynghyd â lleihau faint o wastraff a gynhyrchir o ddatblygiadau wrth eu hadeiladu a’u defnyddio.

## 3.3 Croesgyfeirio'r Amcanion gyda'r Materion Allweddol

3.3.1 Mae Tablau 1 i 6 isod wedi'u trefnu yn ôl pennawd pwnc ac yn crynhoi sut mae un neu fwy o'r Amcanion yn mynd i'r afael â phob Mater Allweddol.

### Tabl 1. Newid yn yr Hinsawdd - Materion ac Amcanion

| RHIF CYF. YR AMCAN | RHIF CYF. Y MATER ALLWEDDOL | TEITL Y MATER ALLWEDDOL |
|---|---|---|
| **Amcan 1** | MA.1 | Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd |

### Tabl 2. Adferiad Natur a Rheoli Adnoddau yn Gynaliadwy - Materion ac Amcanion

| RHIF CYF. YR AMCAN | RHIF CYF. Y MATER ALLWEDDOL | TEITL Y MATER ALLWEDDOL |
|---|---|---|
| **Amcan 2** | MA.2 | Cefnogi Adferiad Natur |
| **Amcanion 3 a 4** | MA.3 | Gofalu am Adnoddau |

### Tabl 3. Egwyddorion Cynllunio Allweddol, Creu Lleoedd, Iechyd a Llesiant - Materion ac Amcanion

| RHIF CYF. YR AMCAN | RHIF CYF. Y MATER ALLWEDDOL | TEITL Y MATER ALLWEDDOL |
|---|---|---|
| **Amcanion 5 a 7** | MA.4 | Hyrwyddo Trafnidiaeth Gynaliadwy |
| **Amcanion 5, 6, 7 ac 8** | MA.6 | Cynllunio ar gyfer Llesiant |
| **Amcanion 5, 6 ac 8** | MA.7 | Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw |
| **Amcan 6** | MA.8 | Datblygiad Iawn, Lle Iawn |
| **Amcanion 5, 6, 7 ac 8** | MA.15 | Creu Lleoedd Lleol |

### Tabl 4. Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cynaliadwy - Materion ac Amcanion

| RHIF CYF. YR AMCAN | RHIF CYF. Y MATER ALLWEDDOL | TEITL Y MATER ALLWEDDOL |
|---|---|---|
| **Amcanion 9, 10 a 12** | MA.5 | Ymateb i Heriau Demograffig |
| **Amcan 11** | MA.9 | Hybu a Diogelu'r Gymraeg |
| **Amcanion 10 a 12** | MA.10 | Cynllunio ar gyfer Cartrefi Newydd |
| **Amcan 13** | MA.17 | Cefnogi Cyfleusterau Cymunedol ac Asedau Cymunedol |

### Tabl 5. Economi Gynaliadwy a Bywiog - Materion ac Amcanion

| RHIF CYF. YR AMCAN | RHIF CYF. Y MATER ALLWEDDOL | TEITL Y MATER ALLWEDDOL |
|---|---|---|
| **Amcanion 14, 15, 16, 17 a 18** | MA.11 | Cynllunio ar gyfer Economi Fywiog |
| **Amcanion 15 a 17** | MA.12 | Cynllunio ar gyfer Economi Ffermio a Gwledig Gref |
| **Amcan 16** | MA.13 | Cefnogi Bargen Twf Canolbarth Cymru |
| **Amcanion 15 a 17** | MA.14 | Cefnogi Twristiaeth |
| **Amcan 18** | MA.18 | Cefnogi Strydoedd Mawr Powys |

### Tabl 6. Seilwaith, Ynni a Gwastraff - Materion ac Amcanion

| RHIF CYF. YR AMCAN | RHIF CYF. Y MATER ALLWEDDOL | TEITL Y MATER ALLWEDDOL |
|---|---|---|
| **Amcanion 19 ac 20** | MA.16 | Cynllunio Anghenion Seilwaith a Gwasanaeth |
| **Amcan 21** | MA.19 | Cefnogi Ynni Cynaliadwy: Harneisio Pŵer Gwyrdd a hybu Effeithlonrwydd Ynni |
| **Amcan 22** | MA.20 | Rheoli a Lleihau Gwastraff |

# Adran D: Matrics Asesu

## 4.1 Asesiad o sut y mae'r Weledigaeth a'r Amcanion yn cyd-fynd â Gofynion Polisi.

4.1.1 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddangos y berthynas rhwng Gweledigaeth ac Amcanion cyffredinol y cynllun datblygu a'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy yn ogystal â'r Amcanion Llesiant lleol. Mae'r adran hon yn cynnwys matrics asesu (Tabl 7) i ddangos sut mae Amcanion drafft y CDLl Newydd, wrth ddarparu'r Weledigaeth, yn cyd-fynd â'r:

- Nodau Llesiant Cenedlaethol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Egwyddorion Cynllun Allweddol a Chanlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol o Bolisi Cynllunio Cymru.
- Amcanion Cynllun Llesiant Powys.

### 4.1.2 Nodau Llesiant Cenedlaethol a'r Pum Dull o Weithio

4.1.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, fel corff cyhoeddus, sicrhau bod ei waith yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r saith nod llesiant ac i ddefnyddio'r Pum Dull o Weithio.

### 4.1.4 Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy Polisi Cynllunio Cymru

4.1.5 Yr Egwyddorion Cynllunio Allweddol a gyflwynir ym Mholisi Cynllunio Cymru yw gweledigaeth ganllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer pob cynllun datblygu, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol. Mae'r egwyddorion hyn yn cefnogi'r newid diwylliant sy'n ofynnol i groesawu creu lleoedd a sicrhau bod cynllunio yn hwyluso'r datblygiad iawn yn y lle iawn.

4.1.6 Mae'n rhaid defnyddio'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy i hysbysu'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu ac asesu cynigion datblygu. Mae'r Canlyniadau yn darparu fframwaith sy'n cynnwys y ffactor a ystyrir fel canlyniad optimaidd cynlluniau datblygu a datblygiadau unigol.

### 4.1.7 Nodau Llesiant Lleol

4.1.8 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gwneud Cynlluniau Llesiant yn ofyniad statudol. Cynhyrchir Cynllun Llesiant Powys gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys, sy'n cynnwys: Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae amcanion y Cynllun Llesiant yn llunio gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu gweledigaeth y Cynllun Llesiant o Bowys Deg, Gynaliadwy ac Iach.

4.1.9 Dyma amcanion Cynllun Llesiant Powys:

- Mae pobl ym Mhowys yn byw bywydau hapus, iach a diogel.
- Mae Powys yn sir o leoedd a chymunedau cynaliadwy.
- Gwasanaeth Cyhoeddus cynyddol effeithiol i bobl Powys.

## 4.2 Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

4.2.1 Bydd Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Cynllun a'i holl elfennau yn cael ei gynnal trwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau y cymerir cyfleoedd i wella cynnwys y Cynllun o ran cyflawni'r nod o ddatblygu cynaliadwy.

**Tabl 7. Asesiad o Amcanion drafft y CDLI Newydd yn erbyn Gofynion Polisi**

| Amcan | NLI[1]: Cymru Lewyrchus | NLI: Cymru Gydnerth | NLI: Cymru sy'n Fwy Cyfartal | NLI: Cymru Iachach | NLI: Cymru o Gymunedau Cydlynus | NLI: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | NLI: Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang | CCCLIC[2] ac ECA[3]: Creu a Chynnal Cymunedau | CCCLIC ac ECA: Gwneud y Gorau o Adnoddau | CCCLIC ac ECA: Amddiffyn yr Amgylchedd a Chyfyngu ar yr Effeithiau ar yr Amgylchedd | CCCLIC ac ECA: Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach | CCCLIC ac ECA: Helpu'r Economi i Dyfu mewn Ffordd Gynaliadwy | NLILI[4]: Mae Pobl ym Mhowys yn Byw Bywydau Hapus, Iach a Diogel | NLILI: Mae Powys yn Sir o Leoedd a Chymunedau Cynaliadwy | NLILI: Gwasanaeth Cyhoeddus Cynyddol Effeithiol i Bobl Powys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan 1 | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amcan 2 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| Amcan 3 | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| Amcan 4 | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | | | | | ✓ | |
| Amcan 5 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| Amcan 6 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| Amcan 7 | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Amcan 8 | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amcan 9 | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amcan 10 | ✓ | | ✓ | | | | | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | |
| Amcan 11 | | | | | | ✓ | | ✓ | | | | | | ✓ | |
| Amcan 12 | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | |
| Amcan 13 | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amcan 14 | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | |
| Amcan 15 | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | |
| Amcan 16 | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | |
| Amcan 17 | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Amcan 18 | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amcan 19 | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amcan 20 | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Amcan 21 | ✓ | | | | | | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Amcan 22 | ✓ | | | | | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |

[1] **NLI: Nod Llesiant Cenedlaethol**

[2] **CCCLIC: Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy**

[3] **ECA: Egwyddorion Cynllunio Allweddol**

[4] **NLILI: Nod (Amcan) Llesiant Lleol Powys**